**Pwyllgor Diwylliant - CC-16-01(p.1)**

**Dyddiad:** 7 Tachwedd 2001

**Amser:** 9.00am-12.15pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol

**AROLWG YR IAITH GYMRAEG GAN BWYLLGOR DIWYLLIANT Y CYNULLIAD**

**CYFLWYNIAD Y COMISIWN CYDRADDOLDEB HIL (CRE CYMRU)**

Cefndir

Mae gwaith, grymoedd a dyletswyddau CRE Cymru'n parhau'n ddirgelwch i laweroedd. Yn yr adran yma rydym yn gobeithio esbonio ein dyletswyddau o dan delerau **Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976**. Mae'r CRE yn annibynnol o'r Llywodraeth er ei fod yn derbyn nawdd gan y Swyddfa Gartref. Caiff ei redeg gan bymtheg comisiynydd a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref, yn eu plith y Cadeirydd Gurbux Singh. Y comisiynwyr yw "wyneb cyhoeddus" y CRE. Maent yn arolygu gwaith strategol a pholisi'r 200 aelod staff mewn swyddfeydd yn Llundain, Birmingham, Leeds, Manceinion, Caeredin a Chaerdydd. Mae'r CRE yn ogystal yn cynorthwyo ariannu, ac yn cydweithio'n agos gyda, rhwydweithiau Cynghorau Cydraddoldeb Hil, yn eu plith Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru, sy'n gweithio o fewn cymunedau er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Prif ddyletswyddau'r CRE yw:

- gweithio er mwyn cael gwared â gwahaniaethu ar sail hil ac i hyrwyddo cyfle cyfartal;
- annog perthynas dda rhwng pobl o wahanol gefndiroedd; ac
- arolygu effaith y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ac argymell sut i'w gwella.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol yng Nghymru, Yr Alban a Lloegr (mae un ar wahân mewn grym yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r CRE yn gweithio ymhob maes y mae pobl yn cael eu hamddiffyn o dan delerau'r Ddeddf. O dan delerau **Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000** mae'r CRE yn gorff rheolyddol gyda grymoedd gorfodi a grymoedd statudol i:

- gynghori a chynorthwyo pobl gyda chwynion yn erbyn gwahaniaethu ar sail hil, aflonyddu neu gamdriniaeth;

- ymchwilio'n ffurfiol i gwmnïau a chyrff os yw gwahaniaethu yn cael ei amau (os yw hynny'n cael ei ddarganfod, mae gan y CRE yr hawl i orfodi y cwmni neu'r corff i newid ei weithdrefn);

- gymryd camau cyfreithiol yn erbyn hysbysebion sy'n gwahaniaethu'n hiliol ac yn erbyn cyrff sy'n dwyn pwysau ar, neu'n gorchymyn, eraill i wahaniaethu – er enghraifft cwmnïau'n gofyn i asiantaethau cyflogaeth beidio anfon ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig; a

- chynorthwyo unigolion i hawlio arolwg barnwrol i herio penderfyniadau cyrff cyhoeddus, gan gynnwys eu cydsyniad â'r dyletswydd cyffredinol.

Yn ogystal â gweithredu ei dyletswyddau statudol mae'r CRE yn gweithredu er mwyn lleihau gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy addysgu'r cyhoedd a dylanwadu ar bolisïau ac arferiadau sefydliadau o bob math. Nid yw'r CRE yn medru cyrraedd nod cydraddoldeb hiliol ar ei ben ei hun, ond drwy gydweithio â Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a phreifat a'r cyhoedd gellir dylanwadu ar agweddau, hyrwyddo arferiadau da ac annog perthnasau hil da. Er mwyn cyrraedd y nod, mae'r CRE yn:

- cyhoeddi cynllun arferiadau da a safon cydraddoldeb hil er mwyn cynorthwyo sefydliadau i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau da;

- cynghori cyflogwyr, cynghorau, awdurdodau tai, awdurdodau iechyd, awdurdodau addysg, yr heddlu, cyrff hyfforddi ac asiantaethau eraill er mwyn osgoi gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb;

- cynghori, a chyflwyno achosion gerbron, y Llywodraeth ar bynciau hil a goblygiadau deddfwriaeth, polisïau ac arferiadau yng nghyd-destun hil;

- hysbysu llunwyr polisïau, cyrff cenedlaethol a'r cyfryngau ynglyn â datblygiadau a hyrwyddo arferiadau da;

- cynnal ymgyrchoedd addysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog eraill i chwarae rhan wrth greu cymdeithas deg; a

- cefnogi ymchwil i effaith a maint gwahaniaethu hiliol ac i bynciau hil cyffredinol.

Sefydlwyd CRE Cymru ym mis Gorffennaf 1995; Cherry Short a Ray Singh CBE yw'r Comisiynwyr ac mae tri o'r pymtheg aelod staff yn medru'r Gymraeg. Mae gan CRE Cymru ran

anhepgorol i’w chwarae wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer datblygiad gwleidyddol, economaidd a diwylliannol cenedl sy’n newid yn gyflym a hynny drwy gydweithio’n glos â sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mewn cydweithrediad ag Uned Polisïau Cydraddoldeb y Cynulliad mae CRE Cymru wedi asesu effaith polisïau ac arferiadau ym meysydd adnewyddu a chynhwyso cymdeithasol ac wedi arolygu lwyddiannau neu fethiannau cydraddoldeb hiliol. O ganlyniad i hyn mae CRE Cymru wedi ymateb i nifer o ddogfennau ymgynghorol ar nifer o bynciau a ddatganolwyd. Er enghraifft, mae CRE Cymru wedi cyfrannu at waith yr Uned Polisïau Cydraddoldeb drwy asesu os yw 57 adran y Cynulliad yn cynnwys cydraddoldeb yn eu harferiadau a’u polisïau.

## CRE Cymru a’r Iaith Gymraeg

Ymrwyma CRE Cymru i gynnal y Gymraeg yn iaith gymunedol a swyddogol hyfyw a grymus. Mae CRE Cymru yn ymwybodol y bydd tranc yr iaith yng Nghymru yn golygu ei cholli am byth. Byddai hynny'n golled enfawr i ddiwylliant Cymru, gan fod iaith a diwylliant a pherthynas agos a’i gilydd. Y Gymraeg yw’r unig iaith yn y Deyrnas Gyfunol sydd â’i deddfwriaeth ei hun felly mae CRE Cymru yn ceisio ei thrin fel iaith swyddogol yng Nghymru.

### *Cynllun yr Iaith Gymraeg*

Yn dilyn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith cytunodd CRE Cymru ar Gynllun Iaith ar y 5ed o Ragfyr 1997. Mae CRE Cymru yn ymdrechu i gyrraedd y nod ond yn cydnabod fod llawer o waith i’w gwblhau. O ganlyniad i hynny sefydlwyd Grwp Arolygu’r Iaith Gymraeg er mwyn gwerthuso ymdrechion CRE Cymru i gynnig gwasanaeth dwyieithog llawn. Mae CRE Cymru yn hyderu y bydd hynny’n digwydd yn llawnder amser. Rydym wrthi’n hysbysebu am aelodau staff yn sgil ariannu ychwanegol ac yn bwriadu recriwtio siaradwr Cymraeg arall i ymuno â’n Rheolwr Swyddfa a’n Swyddog Cyfryngau ac Ymgyrchoedd sy’n medru’r Gymraeg. Mae pob aelod staff dros-dro yn medru’r Gymraeg ac mae CRE Cymru yn cynnig gwersi i bob aelod staff.

### *Pynciau Penodol*

Bwriad CRE Cymru, o fewn cyfyngiadau’r gyfraith, yw creu cymdeithas deg yng Nghymru sy’n rhoi cyfle cyfartal i bawb ddysgu, byw a gweithio heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn a heb boeni ynglyn ag aflonyddu a thrais. Er bod CRE Cymru’n cael ei gysylltu â lleiafrifoedd ethnig (1.5% o boblogaeth Cymru o 2.8 miliwn o bobl) mae cryn dipyn o’r gwaith o ddydd i ddydd yn ymwneud â ymholiadau’r cyhoedd ynglyn â’r Gymraeg. Ein Hadran Gyfreithiol yng Nghaerdydd sy’n ymateb i fwyafrif yr ymholiadau er bod ein Hadran Gwasanaethau Cwsmeriaid a’n Hadran Gyfreithiol yn Llundain yn cyfrannu’n ogystal. Y ddau brif bwnc sy’n codi bron yn ddyddiol yw:

- gwersi Cymraeg gorfodol hyd at 16 oed; a’r

- Gymraeg fel medr angenrheidiol neu ddymunol yn y gweithle.

Mae CRE Cymru yn derbyn nifer o gwynion gan rieni di-Gymraeg, yn enwedig rhai a fewnfudodd i Gymru, sy'n gwrthwynebu' r ffaith fod eu plant yn cael eu "gorfodi" i ddysgu'r Gymraeg o dan ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Wrth gwrs nid gwahaniaethu yw hyn ond mae rhai amgylchiadau yn awgrymu gwahaniaethu, er enghraifft os oedd ysgolion dwyieithog yn rhoi mwy o bwyslais ar un iaith dros y llall. Mae CRE Cymru yn bendant o'r farn nad yw'r Cynulliad yn gwneud digon i hyrwyddo Cymru fel gwlad gwahanol, dwyieithog, sydd â 18% o'i phoblogaeth yn siarad iaith fyw, traddodiadol. Oherwydd hynny mae mewnfudwyr yn anwybodus ynglyn â'n cyfundrefn addysg gan arwain at gyhuddiadau di-sail o wahaniaethu'n erbyn y plentyn di-Gymraeg. Mae eraill, wrth gwrs, yn croesawu ac arddel y Gymraeg sydd wrth fodd CRE Cymru.

Mae CRE Cymru hefyd yn ymateb i bynciau ieithyddol penodol o fewn y gweithle. Er gwaetha'r farn gyffredinol mae gan gyflogwyr yr hawl i wneud medru'r Gymraeg yn orfodol ar hysbysiadau swydd os yw cyflogwyr yn gallu profi hynny. Os nad yw'r cyflogwr yn gallu gwneud hynny gellir efallai honni gwahaniaethu anuniongyrchol. Mae CRE Cymru yn gweithio o fewn cyfyngiadau'r gyfraith ac yn cynghori yn unol â hynny. Dylid cofio fod CRE Cymru yn gorff statudol nid yn unig i leiafrifoedd ethnig ond i bawb, yn Saeson neu Gymry, yn ddu neu'n wyn. Mae CRE Cymru yn ceisio cynorthwyo *unrhyw fod dynol* sy'n dioddef hiliaeth neu wahaniaethu.

Yn ystod Haf 2001 bu CRE Cymru'n ymwneud â phwnc mewnfudo i'r cadarnleoedd, er enghraifft Gwynedd a Cheredigion. Er nad oes yna brawf ystadegol mae yna dystiolaeth "anecdotaidd" fod mewnfudo pobl di-Gymraeg yn andwyo'r iaith. Wedi dweud hynny roedd sylwadau'r rhai sy'n poeni ynglyn â hyn yn ymfflamychol. Gwaethygwyd y sefyllfa gan ymatebion rhai gwleidyddion a rhai eitemau yn y cyfryngau. Tro ar ôl tro bu CRE Cymru ynghanol brwydro rhwng pleidiau gwleidyddol a fethodd yn llwyr â ymateb yn foddhaol i'r sefyllfa yn ogystal â methu deall beth yw hiliaeth. Nid yw diffinio iaith a diwylliant cyfystyr â senoffobia na hiliaeth ond yn fwy aml na pheidio mae sylwadau rhai ymgyrchwyr iaith wedi arwain sawl i gredu'r anwiredd hwn.

Rhaid i'r Cynulliad ymchwilio ar unwaith i effaith mewnfudo ar yr iaith a datblygu polisïau fydd yn cynnal, amddiffyn a datblygu'r iaith tra ar yr un pryd yn caniatáu dinasyddion Prydain a gweddill yr Undeb Ewropeaidd i symud i fyw yn ôl eu dymuniad. Mae CRE Cymru yn cefnogi mewn egwyddor unrhyw bolisi sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

Yn ogystâl â hynny, rhaid cadw mewn cof fod y cadarnleoedd yn colli siaradwyr Cymraeg oherwydd prinder swyddi. Mae angen adfywio cymdeithasol ac economaidd a strwythur gwell, er enghraifft system drafnidiaeth effeithiol.

Ymhlith cynlluniau posib eraill fyddai talu am wersi Cymraeg i oedolion ac annog cyrff cyhoeddus, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cydymffurfio’n llwyr ag anghenion y Ddeddf Iaith, i gyfieithu deunydd.

Mae CRE Cymru’n ymrwymo’n llwyr i Gymru ddwyieithog. Mae ei gyfraniad i’r ymgyrch i gryfhau iaith a diwylliant Cymru hefyd yn cyfoethogi amrywiaeth ein cenedl.

**Dr Mashuq Ally**

**Pennaeth CRE Cymru**